



Trwydded i Ffilmio ym Mro Morgannwg

Crynodeb

Safle:

.....

Dyddiad Paratoi'r Safle:

.....

Dyddiad Ffilmio:

.....

Dyddiad Clirio'r Safle:

.....

Amseroedd ar y safle:

.....

Gwneir y **DRWYDDED HON** rhwng **CYNGOR BRO MORGANNWG** yn y Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, Y Barri, Bro Morgannwg CF63 4RU (y "Cyngor" o hyn ymlaen) sef un rhan ac **[Licensee Name]** o **[Address]** (y "Trwyddedai" o hyn ymlaen) o'r rhan arall

A FYDD NAWR YN DYST I'R WEITHRED HON fel a ganlyn:

1. Gyda golwg ar dalu'r ffi y cyfeirir ati yng Nghymal 2 isod, mae'r Cyngor yn rhoi'r hawl i'r Trwyddedai fynd ar y llain o dir a nodir ar y Cynllun atodedig ("y Lleoliad"), at y diben o ffilmio a gwneud gwaith cysylltiedig fel y nodir yn y Rhaglen Waith atodedig ("y Gwaith Ffilmio") ar y **[date] rhwng [time from – time to]** ("Cyfnod y Drwydded).
2. Bydd y Trwyddedai yn talu £..... ynghyd a TAW i'r Cyngor i ddefnyddio'r Lleoliad ar gyfer y Gwaith Ffilmio yn ystod Cyfnod y Drwydded.
3. Bydd y Trwyddedau yn rheoli'r Gwaith Ffilmio yn unol â'r holl ofynion lechyd a Diogelwch statudol perthnasol gan reoli mynediad yn llym ar bob adeg a bydd yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan swyddog(ion) enwebedig y Cyngor.
4. Bydd y Trwyddedai yn cydymffurfio gyda, ac yn gweithredu yn unol â'r 'Telerau ac Amodau Ffilmio' sydd ynghlwm wrth y Drwydded hon ar bob adeg drwy gydol Cyfnod y Drwydded.

5. Bydd y Trwyddedai yn indemnio'r Cyngor yn erbyn treuliau, atebolrwydd, colledion, hawliadau neu achosion sy'n codi dan unrhyw statud neu gyfraith gwlad mewn perthynas ag anaf personol neu farwolaeth unrhyw berson ni waeth pwy i'r fath raddau y cafodd ei achosi'n uniongyrchol gan weithredoedd esgeulus neu ddiffygion neu gamreoli bwriadol ar ran y Trwyddedai, ei gyflogeion, asiantau neu gontractwyr mewn cysylltiad â'u defnydd o'r Eiddo (ac eithrio i'r fath raddau bod yr un sefyllfa yn deillio o unrhyw weithred neu esgeulustod ar ran y Cyngor neu gan unrhyw berson y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdano). I'r fath raddau a ganiateir gan y gyfraith berthnasol, ni fydd cyfanswm atebolrwydd y naill Barti na'r llall sy'n deillio o'r Cytundeb hwn yn fwy na phum miliwn o bunnau sterling (£5,000,000) yn gyfansymiol.
6. Y Trwyddedai fydd yn atebol am, a bydd yn indemnio'r Cyngor rhag y treuliau, atebolrwydd, colled, hawliad neu achosion mewn perthynas ag unrhyw anaf neu ddifrod o gwbl i unrhyw eiddo tirol neu bersonol cyn belled fod yr anaf neu ddifrod yn deillio'n uniongyrchol o unrhyw weithred esgeulus neu ddiffyg ar ran y Trwyddedai, ei weision neu asiantau neu unrhyw berson a gyflogir gan y Trwyddedau ar gyfer neu mewn cysylltiad â'r Gwaith Ffilmio neu unrhyw ran ohono gan ei weision neu asiantau, a heb wneud drwg i'w rwymedigaethau i indemnio'r Cyngor bydd y Trwyddedau yn trefnu ac yn sicrhau bod ganddo yswiriant mewn perthynas â'r atebolrwydd y cyfeiriwyd ato uchod mewn perthynas ag anaf neu ddifrod i unrhyw eiddo tirol neu bersonol am swm o ddim llai na £5,000,000 (Pum miliwn o bunnau) ar gyfer unrhyw un digwyddiad neu gyfres o ddigwyddiadau yn deillio o un digwyddiad.
7. Y Trwyddedai fydd yn gyfrifol am wneud unrhyw waith adfer mewn perthynas mewn perthynas â'r Gwaith Ffilmio i'r Lleoliad neu Fynediad (os yw'n berthnasol) hyd at foddhad rhesymol Swyddog(ion) enwebedig y Cyngor.
8. Y Trwyddedai fydd yn berchen ar yr holl hawlfraint a hawliau eiddo deallusol arall ym mhob recordiad sain a/neu gweledol a wneir ganddo yn y Lleoliad (gan gynnwys ffotograffau). Petai unrhyw waith hawlfraint yn y Lleoliad yn berchen i drydydd parti, yna bydd y Trwyddedai yn sicrhau ei fod yn cael y caniatâd perthnasol os oes angen.
9. Mae'r Trwyddedai yn cadarnhau y bydd yn cydymffurfio'n llawn a gofynion yswiriant y Cyngor yn unol â'r manylion a geir yng Nghymalau 5 a 6 y Drwydded hon ac yng Nghymalau 12.4 a 12.5 y Telerau ac Amodau Ffilmio atodedig ac mae gofyn i'r Trwyddedai gyflwyno tystiolaeth i'r Cyngor bod y fath ofynion wedi'u bodloni ar ffurf tystysgrif yswiriant.
10. Bydd y Trwyddedai yn cydymffurfio a gofynion y Cyngor o ran asesiadau risg (fel y manylir yng Nghymal 11.2 y Telerau ac Amodau atodedig) a bydd yn cyflwyno asesiad risg cydymffurfio i'r Cyngor i'w gymeradwyo.

11. Os bydd unrhyw ran o'r Gwaith Ffilmio yn digwydd ar briffordd fabwysiedig gyhoeddus, mae gofyn i'r Trwyddedai gadarnhau bod Arolygydd Sector Heddlu De Cymru wedi cael gwybod am y Gwaith Ffilmio, ac nad yw wedi gwneud unrhyw wrthwynebiad yn unol â Chymal 10.6 y "Telerau ac Amodau Ffilmio".

12. Os bydd unrhyw ran o'r Gwaith Ffilmio yn digwydd ar briffordd fabwysiedig gyhoeddus, bydd y Trwyddedai yn rhoi copi o'r cynigion rheoli traffig i'r Cyngor (yn unol â Chymal 11.6 y "Telerau ac Amodau Ffilmio").

LLOFNODWYD AR RAN [Licensee Name]

Ym mhresenoldeb:-

Llofnodwr awdurdodedig

Tyst

LLOFNODWYD AR RAN CYNGOR BRO MORGANNWG

[Council's Nominated Officer – Job Title]

DYDDIAD

CYNGOR BRO MORGANNWG

.

- i

[Licensee Name]

TRWYDDED I FFILMIO YN

[Location] ar [Date] rhwng [time from – time to]